




Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg

2015-2016



Gallwch ofyn am y ddogfen hon mewn fformatau eraill.
Er enghraifft: ffont mwy; ar bapur lliw gwahanol.

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Cefndir	3
Camau a gymerwyd i adnabod a chasglu gwybodaeth berthnasol	5
Rhesymau dros beidio â chasglu gwybodaeth berthnasol	8
Datganiad ar effeithiolrwydd camau a gymerir i gyflawni pob un o'n hamcanion cydraddoldeb	9
Materion eraill sy'n berthnasol i'r ddyletswydd gyffredinol a'r dyletswyddau penodol	13
Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb	13
Hyfforddiant	14
Ymgyrch Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth	15
Race Equality First	17
Gwasanaeth Cynghori ar Atal Gwahaniaethu	17
Grŵp yr Enfys	18
Fforwm Hysbysu a System Hysbysu Sipsiwn a Theithwyr	18
Cynllun y Tic Dwbl	19
Cyngor ynghylch Oedolion ag Awtistiaeth	20
Prosiectau byrdymor	21
Fforwm Strategaeth 50+ y Fro	21
Datblygu'r Celfyddydau	26
Gwasanaethau Hamdden	28
Gwerthuso Swyddi	33
Cynllun y Gweithlu (2016 – 2020)	34
Gwybodaeth benodedig ym maes cyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth am hyfforddiant a chyflogau	35
Sut i gysylltu â ni	37

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn dweud wrthyich am ein gwaith ym maes cydraddoldeb rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016. Rydym yn gwneud hyn er mwyn cyflawni ein dyletswyddau dan y canlynol:

- Deddf Cydraddoldeb 2010;
- Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (a gaiff ei hadnabod fel y 'ddyletswydd gyffredinol); a hefyd
- y dyletswyddau penodol ar gyfer Cymru.

Rydym yn dweud wrthyich sut yr ydym wedi casglu a defnyddio gwybodaeth er mwyn:

- dileu gwahaniaethu anghyfreithlon;
- hybu cyfle cyfartal; a
- meithrin cysylltiadau da.

Rydym hefyd yn dweud wrthyich am y canlynol:

- sut yr ydym yn dod ymlaen gyda'n hamcanion cydraddoldeb;
- y bobl rydym yn eu cyflogi; a
- gwaith arall ym maes cydraddoldeb.

Cefndir

Rydym wedi disgrifio ein prif waith ym maes cydraddoldeb yn ein [Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#).

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016

Fe gytunon ni ar y cynllun hwn ym mis Mawrth 2016. Mae'n seiliedig ar ein cynllun gwreiddiol a gyhoeddwyd yn 2012. Roedd nifer o bethau yr oedd yn rhaid i ni eu gwneud i ddatblygu'r cynllun cyntaf. Rydym yn rhestru'r prif gamau isod.

- Fe edrychon ni faint o wybodaeth oedd gennym am y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Roedd arnom eisiau gwybod yn arbennig pa **grwpiau gwarchoddedig** oedd yn defnyddio ein gwasanaethau.
- Fe gwrrdon ni â sefydliadau lleol i weld a oedd meysydd y gallem gydweithio ynddynt.
- Fe edrychon ni ar gynlluniau eraill i weld a oeddent yn cynnwys camau gweithredu yr oedd angen iddynt gael eu cynnwys yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Roedd y cynlluniau hyn yn cynnwys y Strategaeth Gymunedol, y Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.
- Fe drefnon ni ddigwyddiadau i ni gwrrd â sefydliadau sydd â buddiant yn anghenion grwpiau gwarchoddedig. Fe aethon ni i'w cyfarfodydd nhw os nad oedden nhw'n gallu dod i'n cyfarfodydd ni.
- Fe ymgynghoron ni â'r cyhoedd, staff ac undebau llafur.
- Fe siaradon ni gyda phobl i drafod beth ddylai ein blaenoriaethau fod.

Fe helpodd hyn ni i benderfynu ar ein hamcanion cydraddoldeb. Mae'r rhain yn rhan bwysig o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Fe ymgynghoron ni â phobl eto yn 2015 i'n helpu i benderfynu sut i ddiweddarau'r cynllun. Y brif neges oedd parhau i weithio ar y meysydd yr ydym eisoes yn gweithio arnynt. Rydym wedi datblygu'r nodau hyn i ddangos sut y byddwn yn gwneud cynnydd pellach.

Er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn cyflawni'r amcanion cydraddoldeb, rydym yn rhoi camau gweithredu mewn cynlluniau gwasanaethau. Mae'r cynlluniau hyn yn rhoi arweiniad ar gyfer gwaith pob maes gwasanaeth (megis Gwasanaethau Tai, Gwasanaethau Gweladwy a

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016

Gwasanaethau Cymdeithasol). Mae'n rhaid i bob gwasanaeth fonitro cynnydd gyda'r camau gweithredu hyn. Maen nhw'n adrodd ar hyn wrth reolwyr a Chynghorwyr.

Arweinydd y Cyngor sy'n arwain ar faterion cydraddoldeb. Cyfarwyddwyr sy'n arwain yn eu maes gwasanaeth eu hunain.

Rydym yn dod i wybod am y materion a'r canllawiau diweddaraf mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys trwy rwydwaith y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Camau a gymerwyd i adnabod a chasglu gwybodaeth berthnasol

Rydym wedi bod yn casglu gwybodaeth ynglŷn â phwy sy'n defnyddio ein gwasanaethau am beth amser. Nid ydym wastad wedi bod yn gwneud hyn yn yr un ffordd ar draws y Cyngor. Hefyd, nid ydym wedi bod yn casglu data ynghylch pob grŵp gwarchoddedig.

Am y rheswm hwn, yn 2011, fe lunion ni ffurflen newydd ac fe siaradon ni gyda rheolwyr i egluro pwysigrwydd defnyddio'r ffurflen hon. Fe wnaethom annog gwasanaethau i wella'r modd y maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i'w helpu i gynllunio'u gwaith er mwyn diwallu anghenion pobl yn well.

Pan ddechreuon ni, fe edrychom ni ar wybodaeth o wasanaethau allweddol:

- llyfrgelloedd;
- tai;
- diogelu'r cyhoedd;
- budd-dal tai; a hefyd
- y gwasanaethau cymdeithasol.

Ers hynny rydym wedi ychwanegu rhai meysydd gwasanaeth newydd:

- cofrestru;

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016

- y dreth gyngor;
- y gwasanaeth ieuenctid;
- cyfathrebu; a hefyd
- cwynion.

Pan edrychon ni ar yr wybodaeth yr oeddem wedi'i chasglu, fe wnaethom ystyried:

- y data a gasglwyd dros y blynyddoedd diwethaf;
- y systemau a ddefnyddiwyd i gasglu'r data; a hefyd
- adroddiadau enghreifftiol.

Fe helpodd hyn ni i adnabod bylchau yn yr wybodaeth. Fe siaradon ni am y bylchau hyn gyda rheolwyr. Fe egluron nhw pam eu bod yn meddwl y byddai'n anodd gofyn cwestiynau ychwanegol am nodweddion gwarchodedig defnyddwyr gwasanaethau.

Roedd hyn yn golygu ein bod yn gallu egluro wrth reolwyr pan fod angen iddynt gasglu'r wybodaeth. Fe ddefnyddion ni ganllawiau gan Stonewall i wneud hyn. Gallwch weld y canllawiau hyn yn [Atodiad 1](#). Mae'r ffurflen ddefnyddion ni i gasglu gwybodaeth yn [Atodiad 2](#).

Rydym yn parhau i ddefnyddio dull tebyg.

Gallwch weld yr wybodaeth am gydraddoldeb y mae gwasanaethau wedi'i chasglu yn [Atodiad 4](#). Mae pob gwasanaeth yn dweud sut y mae wedi defnyddio'r wybodaeth i gyrraedd y tri nod sy'n rhan o'r ddyletswydd gyffredinol.

Rydym wedi adrodd ar yr un meysydd gwasanaeth ag y gwnaethom adrodd arnynt ar gyfer 2014 – 2015. Yr unig eithriad yw Diogelu'r Cyhoedd. Mae'r maes gwasanaeth hwn wedi cael ei ailstrwythuro. Y Cydwasanaeth Rheoleiddio ydyw bellach. Mae'n darparu gwasanaeth ar

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016

gyfer tri chyngor gwahanol yn awr, gan gynnwys ein cyngor ni. O ystyried y newid mawr yma, nid ydym wedi gallu cynhyrchu data ar gyfer y flwyddyn adrodd hon.

Cyflwynwyd ffurflen newydd eleni i gasglu'r wybodaeth y mae ei hangen ar gyfer yr adroddiad. Mae'n annog gwasanaethau i ddangos sut y maent wedi defnyddio'r wybodaeth i wneud gwelliannau i wasanaethau.

Mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd wedi defnyddio'r wybodaeth i wella'i wasanaeth ar gyfer y rhai sy'n dymuno cael llyfrau mewn ieithoedd heblaw Saesneg. Mae hefyd wedi'i defnyddio i feddwl sut i sefydlu llyfrgelloedd cymunedol.

Mae Gwasanaethau Oedolion a Phlant wedi canfod bod yr wybodaeth am oedran, rhywedd ac anabledd yn arbennig o ddefnyddiol wrth gynllunio gwasanaethau.

Mae'r Gwasanaeth Tai yn defnyddio gwybodaeth am gydraddoldeb ar gyfer asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb. Cynhelir y rhain pan fo'r Gwasanaeth Tai yn darparu gwasanaethau newydd a phan fo'n rhoi'r gorau i ddarparu neu'n newid gwasanaethau. Mae'r asesiadau hyn yn helpu'r Gwasanaeth Tai i feddwl am anghenion grwpiau gwarchoddedig pan wneir newidiadau i wasanaethau.

I'r Gwasanaeth Budd-dal Tai a'r Gwasanaeth Treth Gyngor, mae oedran ac anabledd yn bwysig ar gyfer cyfrifo budd-daliadau. Maent yn helpu i fonitro llwythi achosion a thueddiadau. Mae hyn o gymorth i gynllunio ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor gan fod hwn bellach yn gynllun lleol, ac nid yn gynllun a ariennir gan y Llywodraeth ganolog mwyach. Mae'r wybodaeth hon hefyd yn helpu i gynllunio ar gyfer effaith diwygiadau lles eraill a allai, yn eu tro, effeithio ar y gyllideb taliadau tai yn ôl disgrisiwn.

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi defnyddio'r duedd mewn data am gydraddoldeb dros nifer o flynyddoedd i adnabod anghenion pobl ifanc anabl. Mae wedi sefydlu clwb ieuenctid yn Ysgol y Deri i bobl ifanc ag anableddau.

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016

Mae'r Gwasanaeth Cofrestru yn cynnal arolwg cwsmeriaid ac yn gofyn i bobl gwblhau ffurflen cydraddoldeb ar yr un pryd. Yn anffodus, nid yw'r wybodaeth am gydraddoldeb wedi cael ei defnyddio gyda'r sylwadau o'r arolwg. Mae hyn yn golygu nad oedd yn gallu dadansoddi'r canlyniadau yn ôl nodweddion gwarchoddedig. Fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei ddatrys fel ei fod yn gallu gwneud hyn yn y dyfodol.

Mae'r Gwasanaeth Cwynion Corfforaethol wedi cynnal arolwg cwsmeriaid. Mae wedi bwrw golwg ar y canlyniad yn ôl nodweddion gwarchoddedig. Mae'r wybodaeth yn cael ei defnyddio i wneud gwelliannau i'r gwasanaeth. Er enghraifft, nodwyd mai menywod hŷn oedd y rhan fwyaf o bobl a ddychwelodd y ffurflen cydraddoldeb. Er mwyn annog mwy o bobl ifanc i ddefnyddio'r broses gwynion, bydd y Gwasanaeth yn hyrwyddo ap symudol a'r ffurflen gwyno ar-lein. Mae'n gwneud hyn am mai'r tebyg yw bod pobl ifanc yn fwy tebygol o gwyno yn y ffordd yma.

Mae'r Tîm Cyfathrebu yn casglu data pan fydd yn cynnal arolygon. Mae'n aml yn gwneud hyn ar ran Gwasanaethau eraill ac felly'r Gwasanaethau fydd yn defnyddio'r data i wneud y gwelliannau. Yn ystod 2015 / 16, fe gynhaliodd 25 o arolygon. Mae'n ymgysylltu'n rheolaidd â grwpiau gwarchoddedig, megis Fforwm 50+ y Fro, Fforwm Ieuenctid y Fro a'r Grŵp Coffi Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol. Mae'n gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu darllen yr arolygon yn rhwydd ac mae'n gofyn iddynt am wybodaeth am gydraddoldeb ar yr un pryd. Mae'n canfod pwy sydd â buddiant yn y gwasanaeth ac yna'n cysylltu â hwy, gan gynnwys grwpiau gwarchoddedig.

Rhesymau dros beidio â chasglu gwybodaeth berthnasol

Mae'r rhesymau dros beidio â chasglu gwybodaeth yn cynnwys:

- staff yn gofyn i ddefnyddwyr am wybodaeth bersonol wyneb yn wyneb;
- defnyddwyr ddim yn dymuno cwblhau ffurflen arall ar ben ffurflen gais hir;

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016

- pryder nad yw arolygon cyfyngedig yn rhoi gwir ddarlun.

Rydym yn annog rheolwyr i egluro pa mor bwysig yw'r wybodaeth hon. Gellir ei defnyddio i helpu i wella gwasanaethau.

Datganiad ar effeithiolrwydd camau a gymerir i gyflawni pob un o'n hamcanion cydraddoldeb

Dyma amlinelliad byr o'r modd y datblygon ni ein hamcanion. Mae manylion llawn ar gyfer hyn i'w gweld yn ein [Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#).

- Fe ddefnyddion ni ymchwil genedlaethol i'n helpu i ddeall y materion. Er enghraifft, fe fwrion ni olwg ar yr adroddiadau 'Pa Mor Deg yw Cymru?' a 'Mwy Nag Ystadegyn'. Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol gynhyrchodd yr adroddiadau hyn.
- Fe edrychon ni a oedd unrhyw wybodaeth gennym yn y Cyngor i ddweud mwy wrthym.
- Fe siaradon ni gyda grwpiau sy'n gwybod am fuddiannau grwpiau gwarchoddedig.
- Fe ymgynghoron ni â'n staff ni ein hunain a'r cyhoedd.
- Fe gytunon ni ar yr amcanion cydraddoldeb y byddem yn gweithio arnynt am y 4 blynedd nesaf.

Yn dilyn hyn, fe gytunon ni ar ein hamcanion cydraddoldeb. Rydym yn dangos beth wnaethom isod.

- 1. Casglu a chyhoeddi data i weld pa bobl o grwpiau gwarchoddedig sy'n defnyddio, neu sydd ddim yn defnyddio, ein gwasanaethau. Defnyddio'r wybodaeth hon i wella'r modd y gall pobl ddefnyddio gwasanaethau.**

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016

Fe gyflwynon ni ffurflen gorfforaethol i gasglu data fel bod dull cyson ar draws ein gwasanaethau.

Rydym wedi gweithio gyda grŵp o wasanaethau craidd i gasglu a dadansoddi gwybodaeth am nodweddion gwarchoddedig bob blwyddyn. Rydym wedi cynyddu nifer y gwasanaethau sy'n adrodd yn y ffordd yma yn y pedair blynedd ddiwethaf.

Fe ddarparon ni hyfforddiant dadansoddi data i helpu gwasanaethau i ddefnyddio'r wybodaeth hon yn fwy effeithiol.

Bob blwyddyn, rydym yn adrodd ar ddata sy'n dangos pa grwpiau gwarchoddedig sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Rydym yn rhoi'r adroddiad hwn ar ein gwefan. Rydym wedi gwella'r wybodaeth hon bob blwyddyn.

2. Gwella cyngor ynghylch sut i ysgrifennu ar gyfer y cyhoedd fel bod pobl yn gallu deall yr wybodaeth yr ydym yn ei rhoi iddynt.

Rydym wedi gwella ein canllawiau a'u rhoi ar dudalen we i staff eu defnyddio.

Rydym wedi dweud wrth staff amdanynt trwy drefniadau briffio amrywiol.

Rydym yn diweddarau cwrs hyfforddi ar ddefnyddio iaith glir. Bydd y cwrs yn dweud wrth bobl am y canllawiau hyn.

3. Helpu staff i ddeall dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Helpu staff a'r cyhoedd i ddeall anghenion pobl â nodweddion gwarchoddedig.

Fe gynhalion ni ddadansoddiad o anghenion o ran hyfforddiant cydraddoldeb ac fe sefydlon ni raglen hyfforddi i ddiwallu anghenion staff.

Fe ddatblygon ni gyrsiau hyfforddi, modiwlau e-ddysgu a chanllawiau ysgrifenedig fel bod staff yn gallu canfod yr un y mae angen iddynt ei wybod am gyfraith cydraddoldeb.

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016

Rydym yn dweud wrth y cyhoedd am faterion sy'n effeithio ar bobl o grwpiau gwarchoddedig. Rydym yn gwneud hyn mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys defnyddio posterï yn ein Derbynfa, hyrwyddo ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol, defnyddio TREV (Y Cerbyd Ymgysylltu a Chynnig Cysur) mewn cymunedau, a mynychu digwyddiadau.

4. Sefydlu cyngor ynghylch sut i ymgysylltu ac ymgynghori â phobl o grwpiau gwarchoddedig ynghylch newidiadau i wasanaethau.

Fe sefydlon ni ganllawiau newydd ar gyfer ymgysylltu â phobl. Fe gytunon ni i ddefnyddio'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru.

Rydym yn siarad gyda phobl ac yn gofyn iddynt beth maent yn ei feddwl pan ydym yn gwneud newidiadau i wasanaethau. Yn arbennig, rydym yn ymgysylltu'n aml â Fforwm 50+ y Fro (ein fforwm pobl hŷn) a'r Cabinet Ieuenctid.

5. Cynyddu'r defnydd o'r llinell gymorth troseddau casineb a'r system gwynion i hysbysu ynghylch aflonyddu a gwahaniaethu.

Rydym wedi gosod posterï, wedi dweud wrth bobl am droseddau casineb mewn cyfarfodydd a digwyddiadau, ac ar ein gwefan. Rydym yn gwirio faint o hysbysiadau ynghylch troseddau casineb a wneir.

Rydym yn hyrwyddo'r Llinell Cymorth i Ddiodefyr ers i Lywodraeth Cymru roi cyllid iddynt i redeg gwasanaeth cenedlaethol i Gymru.

Rydym wedi dechrau edrych i weld faint o gwynion yr ydym yn eu cael gan bobl â nodweddion gwarchoddedig. Rydym yn adrodd ar hyn.

6. Cynyddu ymwybyddiaeth a hyder o ran defnyddio gwasanaethau cymorth cam-drin domestig.

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth gydag Atal y Fro ac eraill. Rydym wedi sefydlu cynllun i atal cam-drin domestig, cefnogi dioddefwyr a chynyddu ymwybyddiaeth a chyfraddau hysbysu.

Rydym wedi rhedeg ymgyrchoedd megis 'Y tu ôl i ddrysau caeedig' a'r 'Rhuban Gwyn'.

Rydym wedi sefydlu polisi ar gyfer y gweithle i gynorthwyo rheolwyr a staff i ymdrin â cham-drin domestig.

Rydym yn gweithio ar wella data.

7. Datblygu cynllun ar gyfer y gweithlu gyda chamau gweithredu i leihau'r bwloch cyflog rhwng y rhywiau a gwirio cynnydd.

Mae gennym gynllun ar gyfer y gweithlu i helpu i sicrhau bod cyflogeion y Cyngor yn adlewyrchu proffil y gymuned. Mae hyn yn cynnwys camau gweithredu i leihau'r bwloch cyflog rhwng y rhywiau. Rydym yn edrych ar ddata i wirio cynnydd.

Mae'r bwloch cyflog rhwng y rhywiau wedi lleihau dros y ddwy flynedd ddiwethaf o 9.95% i 9.80%.

Yn ein hadroddiadau blynyddol ar gydraddoldeb, rydym wedi adrodd ar amrywiaeth o wybodaeth am gyflogaeth: cyflog dynion a menywod; gwahanol grwpiau oedran, ailbennu rhywedd, hunaniaeth genedlaethol, hil ac ethnigrwydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, daliadau crefyddol, statws priodasol a gallu yn y Gymraeg.

Cynllun Strategol 2016 – 2017

Tuag at ddiwedd 2015, fe wnaethom adolygu ein hamcanion cydraddoldeb a diweddarau ein [Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016 - 2020](#). Dywedodd pobl wrthym eu bod am i ni barhau i weithio ar y meysydd yr oeddem wedi bod yn gweithio arnynt yn 2015 – 2016. Rydym wedi datblygu'r rhain gan ddefnyddio ymchwil ddiweddarach megis 'A Yw Cymru'n Decach?' gan

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016

y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Rydym hefyd wedi creu cysylltiadau â'n Cynllun Corfforaethol.

Materion eraill sy'n berthnasol i'r ddyletswydd gyffredinol a'r dyletswyddau penodol

Fe welwch yn [Atodiad 4](#) bod nifer o ffyrdd y mae gwasanaethau wedi casglu data ac wedi hybu cydraddoldeb.

Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae gennym system ar gyfer asesu effaith ein gwaith ar grwpiau gwarchoddedig ers nifer o flynyddoedd. Rydym yn ei hadolygu ac yn ei gwella o bryd i'w gilydd. Rydym yn cyhoeddi canlyniadau ein hasesiadau ar ein gwefan.

Rydym yn parhau i gynorthwyo rheolwyr i feddwl am eu gwaith yn y ffordd yma. Rydym yn darparu hyfforddiant mewn cynnal asesiadau. Ceir modiwl e-ddysgu i bobl ddysgu ar-lein sut i'w wneud. Rydym yn gofyn iddynt ddangos eu ffordd o feddwl mewn cofnod ffurfiol y gallwn ei gyhoeddi.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae wedi bod yn bwysig i ni feddwl sut y gallai toriadau i gyllidebau effeithio ar ein gwasanaethau. Wrth i ni baratoi cyllidebau, rydym yn meddwl sut y gallai newidiadau effeithio ar grwpiau gwarchoddedig. Rydym hefyd yn meddwl sut y gallwn leihau i'r eithaf yr effeithiau anffafriol arnynt. Rydym yn cyhoeddi'r asesiad o effaith y gyllideb ar grwpiau gwarchoddedig ar ein gwefan.

Yn fwy diweddar, rydym wedi gorfod meddwl am ddarparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol iawn. Y rheswm dros hyn yw ein bod yn gwybod bob blwyddyn, dros y blynyddoedd nesaf, y bydd llai o arian i'w wario ar wasanaethau. Wrth i ni wneud hyn, rydym yn meddwl sut y bydd hyn yn effeithio ar grwpiau gwarchoddedig ac rydym yn siarad gyda nhw am y peth.

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016

Gallwch weld yr [asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb](#) a gyhoeddwyd gennym ar ein gwefan.

Hyfforddiant

Yn 2012, fe ofynnon ni i'n rheolwyr feddwl am eu hanghenion hyfforddiant nhw ac anghenion hyfforddiant pobl yn eu tîm. Fe ddefnyddion ni arolwg i wneud hyn. Fe helpodd hyn ni i gynllunio hyfforddiant a fyddai'n diwallu eu hanghenion.

O ganlyniad i hyn, yn 2013, fe lansion ni raglen o sesiynau hyfforddi byr i wneud yn siŵr bod staff yn gwybod am y gyfraith newydd ym maes cydraddoldeb. Rydym yn parhau i gynnal sesiynau'n rheolaidd fel bod mwy o'n staff yn gallu bod yn bresennol.

Rydym yn parhau i gynnig modiwlau e-ddysgu. Mae un o'r rhain yn dweud wrth staff am y pethau sylfaenol y mae angen iddynt eu gwybod am gydraddoldeb. Mae'r llall yn dweud wrth staff sut i asesu effaith eu gwaith ar grwpiau gwarchoddedig (asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb).

Gall pobl edrych ar y rhain ar y cyfrifiadur wrth eu desgiau. Gall hyn ei gwneud yn haws i rai pobl gwblhau'r hyfforddiant. Rydym yn monitro pwy sydd wedi cwblhau'r math yma o hyfforddiant.

Ceir rhai aelodau o staff sy'n methu â mynychu'r sesiynau hyfforddiant ac sydd heb fynediad at y modiwlau e-ddysgu. I'r staff hyn, rydym yn darparu llyfryn sy'n egluro'r pethau allweddol y mae angen iddynt eu gwybod. Rydym yn monitro pwy sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant yn y ffordd yma.

Fe drefnon ni fathau eraill o hyfforddiant yn ystod 2013 - 14. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth o fod yn fyddar, hyfforddiant ymwybyddiaeth o bobl drawsryweddol a hyfforddiant ymwybyddiaeth o bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol. Fe ddarparon ni gyllid i aelod o staff gwblhau cam cyntaf hyfforddiant Iaith Arwyddion Prydain.

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016

Yn 2014 – 15, fe wnaethom barhau â'n rhaglen o hyfforddiant ymwybyddiaeth o gydraddoldeb. Fe wnaethom hefyd ddarparu hyfforddiant iaith Arwyddion Prydain a hyfforddiant ymwybyddiaeth o fod yn fyddar.

Rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2016, fe wnaethom redeg rhaglen o hyfforddiant mewn asesu'r effaith ar gydraddoldeb. Daeth cyfanswm o 121 o swyddogion i'r sesiynau hyn. Fe wnaethom redeg yr hyfforddiant hwn eto ym mis Ionawr 2017 i bobl nad oeddent wedi mynychu'r sesiynau cynharach. Mynychwyd yr hyfforddiant gan 20 swyddog ychwanegol.

Ymgyrch Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth

Rydym yn parhau i weithio gyda Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth. Elusen yw hon sy'n gweithio gyda phobl ifanc i godi ymwybyddiaeth o hiliaeth a homoffobia. Mae'n defnyddio pêl-droedwyr a sêr eraill o fyd y campau fel modelau rôl i wneud hyn. Maen nhw'n darparu gweithdai am hiliaeth ar gyfer pobl ifanc ac yn darparu sesiynau ffitrwydd sy'n hwyl.

Yn 2015 - 2016, cynhaliwyd 77 gweithdy mewn 33 lleoliad addysgol, gan gynnwys:

- 27 ysgol gynradd;
- 4 ysgol uwchradd;
- 2 uned cyfeirio disgyblion / ysgol arbennig.

Fe gwrrdon nhw â 2,347 o blant a phobl ifanc. Ar ôl y gweithdai, dywedodd 62% o'r bobl ifanc eu bod wedi newid y ffordd y maen nhw'n trin eraill. Dyma rai o'u sylwadau:

“Mae gen i fwy o barch tuag atynt yn awr”

“Rwy'n cynhyrfu llai”

“Yn neis a'u trin yr un fath”

“Yn neis, yn llawn parch, ac yn garedig”

“Caredig a diniwed”

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016

“Yn neis, fel yr hoffwn i gael fy nhrin”

“Meddwl cyn fy mod yn siarad.”

“Rwy’n trin fy ffrindiau fel yr hoffwn i gael fy nhrin”

Yn dilyn y gweithdy, roedd 5% o’r plant wedi gweld hiliaeth ac fe ddywedodd pob un ohonynt wrth oedolyn.

Fe ofynnnon ni i’r 95% arall beth fydden nhw’n ei wneud pe baent yn gweld hiliaeth. Dyma ddwedon nhw:

“Dweud wrth fy athro/athrawes”

“Hysbysu yn ei gylch.”

“Byddwn i’n ffonio’r heddlu”

“Byddwn yn gwneud fy ngorau i’w atal neu’n dweud wrth rywun ar unwaith”

“Byddwn yn dweud wrth rywun”

Fe ofynnnon ni i athrawon sut yr oeddent yn teimlo ar ôl y gweithdai:

- Dywedodd 72% eu bod yn fwy cyfforddus i ddarparu gweithgareddau a gweithdai gwrth-hiliaeth (Mae Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth yn rhoi iddynt yr adnoddau i wneud hyn);
- Roedd 81% o’r athrawon yn meddwl bod y gweithdai’n ysgogi trafodaeth dda am hiliaeth rhwng disgyblion.

Bu disgyblion o ysgolion y Fro mewn digwyddiadau gweithdy a gynhaliwyd gan Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth Cymru. Cafodd y rhain eu cynnal yng Nghlwb Rygbi Gleision Caerdydd a Chlwb Morgannwg. I gloi’r ddau ddigwyddiad cynhaliwyd cynadleddau i’r wasg

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016

gyda chwaraewyr presennol a chyn-chwaraewyr. Cafodd y bobl ifanc a ofynnodd y cwestiynau gorau fagiau nwyddau a thocynnau gêm.

Race Equality First

Fe ariannon ni Race Equality First i'n helpu gyda pheth gwaith ym maes cydraddoldeb. Fe helpodd ni i wneud y canlynol:

- parhau i ddarparu grŵp ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsryweddol;
- parhau i gefnogi Grŵp yr Enfys a'i alluogi i ddod yn annibynnol;
- sefydlu Fforwm Gyrwyr Tacsis yn y Fro i fynd i'r afael â materion gwahaniaethu a chynghori yn eu cylch; a hefyd
- trefnu'r gystadleuaeth calendr gwrth-hiliaeth flynyddol i ysgolion gyda seremoni wobrwyo i'r enillwyr (fe gystadlodd 12 o ysgolion gyda chwech yn ennill).

Gwasanaeth Cyngori ar Atal Gwahaniaethu

Ers mis Medi 2012, rydym wedi bod yn ariannu Cyngor Ar Bopeth i ddarparu'r gwasanaeth hwn ar ein cyfer. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi pob un o'r grwpiau gwarchoddedig. Mae ar gael un diwrnod yr wythnos yn y swyddfa yn y Barri.

Mae'r gwasanaeth cyfrinachol yn cynnig:

- cyngor teg a rhad ac am ddim;
- gweithwyr profiadol sydd wedi cael hyfforddiant ar wahaniaethu'n ymdrin â gwaith achos;

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016

- gwasanaeth galw heibio ar foreau lau;
- cyngor ar bob adeg arall.

Grŵp yr Enfys

Yn dilyn ein cymorth trwy Race Equality First, daeth Grŵp yr Enfys yn annibynnol. Menywod o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yw ei aelodau. Mae'r grŵp wedi helpu menywod i ddefnyddio a threfnu gwasanaethau hamdden.

Roeddem yn gallu ymgynghori â hwy ynghylch gwasanaethau'r cyngor o bryd i'w gilydd.

Yn anffodus, nid yw'r grŵp hwn yn cwrdd mwyach.

Fforwm Hysbysu a System Hysbysu Sipsiwn a Theithwyr

Am yr ychydig flynyddoedd diwethaf, bu gennym Fforwm Sipsiwn a Theithwyr. Fe wnaethom barhau i gefnogi hwn. Roedd yn cynnwys pobl o wasanaethau sy'n gweithio gyda Sipsiwn a Theithwyr. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro;
- Diogelwch Cymunedol;
- Iechyd yr Amgylchedd;
- Ystadau;
- Gwasanaethau Cyfreithiol;
- Gwasanaethau Cymorth i Ddisgyblion;
- Uned Cefnogi Lleiafrifoedd Heddlu De Cymru.

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016

Fe wnaeth y grŵp yma'n siŵr bod systemau ar waith i gefnogi sipsiwn a theithwyr pan oeddent yn cyrraedd yn yr ardal. Roedd systemau i hysbysu ynghylch newydd-ddyfodiaid, asesu anghenion o ran lles, a rhannu gwybodaeth.

Fe wnaethom fonitro ein system hysbysu ynghylch safleoedd. Pan oedd swyddogion yn dod i wybod bod safle Sipsiwn a Theithwyr newydd, roeddent yn hysbysu ein canolfan Cyswllt Un Fro yn ei gylch. Fe rannon ni'r wybodaeth hon gydag aelodau eraill y grŵp.

Fe wnaethom barhau i fod â chytundeb lefel gwasanaeth gyda Phrosiect Sipsiwn a Theithwyr Caerdydd. Y sefydliad hwn oedd yn sefydlu'r cyswllt cyntaf â theuluoedd Teithwyr pan oeddent yn cyrraedd yn yr ardal. Roedd yn dod i wybod am faterion megis anghenion o ran lles a hyd arhosiad. Roedd yn rhoi'r wybodaeth hon i'n canolfan gyswllt er mwyn iddi allu ei throsglwyddo i aelodau'r fforwm.

Yn ystod 2015 – 16, fe wnaethom adolygu'r aelodaeth yn gyson i sicrhau ein bod yn gwybod pa bobl i gysylltu â hwy ym mhob sefydliad. Fe alluogodd hyn ni i barhau i weithio'n effeithiol lle'r oedd materion yn codi.

Cynllun y Tic Dwbl

Fe atebon ni ofynion Cynllun y Tic Dwbl. Cynllun sy'n helpu ymgeiswyr am swyddi sy'n anabl yw hwn. Lle mae ymgeisydd anabl yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, rydym yn cyfweld â'r person hwnnw.

Dan y cynllun, rydym yn helpu pobl ag anableddau mewn nifer o ffyrdd.

- **Cyfweliadau hygyrch**

Rydym yn dileu rhwystrau i gyfweliadau trwy ddarparu pethau megis: cyfleusterau parcio ceir; dehonglwyr iaith arwyddion; mynediad i gadeiriau olwyn; system dolen glywed; neu gyfieithydd ar y pryd.

- **Lleoliad y cyfweliad**

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016

Rydym yn trefnu ymweliad â lleoliad y cyfweiliad cyn y cyfweiliad. Wedyn gallwn wneud addasiadau cyn y cyfweiliad os oes eu hangen ar bobl.

- **Datblygu galluedd**

Rydym yn gwneud yn siŵr bod cyfle i bobl ddatblygu a defnyddio'u galluedd. Rydym yn gwneud hyn trwy ein system Adolygu Datblygiad Personol.

- **Cynorthwyo cyflogeion**

Rydym yn cynorthwyo cyflogeion i aros mewn cyflogaeth os ydynt yn dod yn anabl.

- **Codi ymwybyddiaeth**

Rydym yn trefnu hyfforddiant i helpu staff i wybod mwy am anabledd.

- **Adolygu'r cynllun**

Rydym yn gwirio'n rheolaidd sut y mae'r cynllun yn rhedeg ac yn cynllunio gwelliannau. Rydym yn dweud wrth y Gwasanaeth Cyflogaeth am ein cynnydd a'n cynlluniau pan fo'n ofynnol.

Mae'r cynllun hwn wedi newid ac wedi cael ei ddisodli gan y Cynllun Hyderus o ran Anabledd. Mae gwahanol lefelau i'r cynllun. Rydym ni ar y lefel 'Hyderus o ran Anabledd – Cyflogwr'.

Cyngor ynghylch Oedolion ag Awtistiaeth

Mae gennym dîm o ddau aelod o staff rhan-amser sy'n rhoi cymorth lefel-isel i oedolion ar y sbectrw m awtistiaeth. Rydym yn gwneud hyn am nad ydynt yn bodloni'r meini prawf i gael cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol na gwasanaethau iechyd meddwl.

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016

Mae'r gwasanaeth yn cynnig cymorth byrdymor i oedolion ag awtistiaeth gweithredu lefel uchel a syndrom Asperger. Rydym am eu helpu i fyw'n annibynnol. Rydym yn gwneud hyn mewn nifer o ffyrdd.

- Rydym yn darparu pwynt cyswllt clir i roi gwybodaeth a chyngor iddynt.
- Os ydynt yn gymwys i gael cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol, rydym yn eu cyfeirio at y gwasanaethau hynny.
- Os nad ydynt yn gymwys i gael cymorth, rydym yn eu cyfeirio at wasanaethau eraill yn eu cymunedau.
- Rydym yn eu hannog i ymuno â grwpiau cymdeithasol a bod yn rhan o ddiwyddiadau a gweithgareddau lleol. Mae hyn yn helpu i leihau'r risg o argyfwng a phroblemau iechyd meddwl.

Gwaith achos byrdymor yw ein cymorth. Y rheswm dros hyn yw ein bod yn annog pobl i fod yn annibynnol ac nad ydym am iddynt fod yn ddibynnol ar y tîm.

Rydym yn rhedeg gweithdai hyfforddi i bobl ddatblygu sgiliau cymdeithasol. Rydym yn helpu i redeg grŵp trafod misol i oedolion. Rydym wedi sefydlu grŵp i gyplau lle mae un partner neu'r ddau bartner ar y sbectrwm awtistig. Rydym yn cefnogi oedolion cyn, yn ystod ac ar ôl y broses ddiagnostig.

Prosiectau byrdymor

Fe gynhalion ni brosiectau byrdymor i wella annibyniaeth a lles. Ar gyfer un o'r prosiectau hyn, fe weithion ni gyda Pedal Power i helpu oedolion i gael mynediad at feicio. Ar gyfer prosiect arall, fe weithion ni gyda cherddorion o Gwmni Opera Cenedlaethol Cymru. Fe helpon nhw ni i lwyfannu cyngerdd cerddoriaeth siambr "hygyrch".

Fforwm Strategaeth 50+ y Fro

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016

Mae'r Fforwm yn siarad dros anghenion pobl hanner cant oed a throsodd ym Mro Morgannwg. Mae ei aelodau mewn cysylltiad â llawer o weithgorau lleol a chenedlaethol. Mae gan y Fforwm grŵp etholedig o aelodau a elwir yn bwyllgor gwaith. Nhw sy'n penderfynu sut mae'r Fforwm yn gweithio.

Mae pum grŵp yn gweithio i wneud yn siŵr bod pobl dros hanner cant yn gallu profi iechyd, cludiant, tai a gofal da. Maen nhw'n ceisio sicrhau bod pobl yn gallu dysgu sgiliau newydd a gwneud pethau sy'n hwyl i weddu i'w hanghenion. Mae'r Fforwm yn siarad gyda'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd am y gwasanaethau a ddarperir. Mae'r Fforwm yn cynnal digwyddiadau bob blwyddyn hefyd.

Mae'r Cyngor yn cydweithio'n agos gyda'r Fforwm. Mae'n rhoi cymorth swyddog iddo, sef y Cydgysylltydd Pobl Hŷn. Mae'r Cydgysylltydd Pobl Hŷn yn cynnig cyngor a chymorth rheolaidd i'r Fforwm, gan gynnwys gwaith ysgrifenedig.

Mae'r Cyngor yn rhoi grant bach i'r Fforwm i dalu treuliau aelodau a thalu am weithgareddau a digwyddiadau. Mae'r Fforwm yn defnyddio'r grant ar gyfer y canlynol:

- cylchgrawn sy'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer pobl hŷn;
- gwefan;
- i brynu offer megis argraffwyr a llechi; ac
- i ddysgu i bobl sut i ddefnyddio cyfrifiaduron a ffonau clyfar.

O bryd i'w gilydd, mae'r Cyngor yn dymuno gwybod beth mae pobl yn ei feddwl am ei gynlluniau. Pan fydd yn dymuno gwneud hynny, bydd yn cynllunio gwahanol weithgareddau i ganfod beth y mae ar bobl ei angen. Mae hyn yn cynnwys siarad gyda'r Fforwm.

Digwyddiadau'r Fforwm

Mae Age Cymru wedi sefydlu gŵyl gelfyddydol flynyddol o'r enw Gwanwyn. Fe'i cynhelir ym mis Mai bob blwyddyn i bobl hŷn gael mwynhau'r celfyddydau.

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016

Cynhaliodd y Fforwm ei ddigwyddiad ei hun – ‘Gŵyl Gelfyddydol y Gwanwyn’. Cynhaliodd y digwyddiad hwn gyda ‘Golau Caredig’ – y cartref gofal ychwanegol. Tai sy’n cefnogi pobl ag anghenion ychwanegol yw tai gofal ychwanegol. Efallai fod ganddynt anabledd neu ddementia.

Roedd Gŵyl y Gwanwyn yn gyfle i bobl roi cynnig ar weithgareddau celf a chrefft a gweithgareddau eraill. Roedd sesiynau ar ddawnsio, canu, cerdded Llychlynaidd, beicio i bawb er gwaethaf anabledd a Tai Chi.

Roedd hyfforddiant ar ddefnyddio gliniaduron, llechi a ffonau clyfar hefyd. Mae hyn yn helpu ystod ehangach o bobl i ddefnyddio’r math yma o dechnoleg a gwneud hynny’n ddiogel.

Ym mis Mehefin 2015, cynhaliodd y Fforwm arddangosfa ar Ddiwrnod Ymwybyddiaeth Fydeang o Gam-drin Pobl Hŷn yn Llyfrgell y Barri. Roedd yno am saith diwrnod. Roedd yn dweud wrth bobl am sefydliadau sy’n gweithio i gadw pobl yn ddiogel yn y gymuned. Roedd hyn yn cynnwys gwasanaeth atal cam-drin domestig (Atal y Fro); Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a’r Gwasanaeth Tân. Roedd canllawiau ar ddiogelwch yn y stryd a’r cartref hefyd, ac ar y risgiau a achosir gan fasnachwyr anonest a throeddau ar-lein.

Ym mis Medi 2015, roedd digwyddiad i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn. Defnyddiodd y Fforwm hwn i ddathlu ei ddegfed pen-blwydd. Roedd sioe ffasiynau a dawns te. Roedd pobl yn gallu cymryd rhan mewn ystod lawn o weithgareddau hwyl. Roedd mwy na deg ar hugain o stondinau lle’r oedd pobl yn gallu cael gwybodaeth a chyngor.

Cyhoeddusrwydd

Ddwywaith y flwyddyn, mae’r Fforwm yn cyhoeddi cylchgrawn o’r enw ‘The Herald’. Mae’n rhoi gwybod i bobl am waith y Fforwm a phethau sydd o ddiddordeb i bobl dros 50 oed. Ceir eitemau am wasanaethau a gweithgareddau hamdden hefyd.

Mae gan y Fforwm ei wefan ei hun hefyd. Mae’r wefan hon yn rhoi mynediad at nifer o wefannau ar y cyfryngau cymdeithasol.

Cefnogi prosiectau eraill

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016

Mae Aelodau o'r Fforwm wedi hyfforddi i fod yn 'hyrwyddwyr digidol'. Mae hyn yn golygu eu bod:

- yn addysgu pobl am ddiogelwch ar-lein; ac
- yn addysgu pobl sut i ddefnyddio gliniaduron, llechi a ffonau clyfar, gan gynnwys e-bost a'r Rhyngrwyd.

Mae rhai aelodau o'r Fforwm wedi hyfforddi i fod yn Hyrwyddwyr Cyfeillion Dementia. Maent yn gwirfoddoli i wneud hyn. Maent yn annog eraill i helpu pobl â dementia i fyw yn y gymuned. Maent yn rhoi gwybodaeth iddynt sy'n egluro beth yw dementia, sut beth yw byw gyda dementia, a beth allant ei wneud i helpu.

Mae dau aelod o'r Fforwm wedi bod ar gwrs LIFT Age Cymru. Enw ar raglen gweithgarwch yw LIFT. Ei nod yw annog pobl hŷn i fod yn egnïol yn eu cymuned leol. Yn awr gall y ddau aelod o'r Fforwm gynnig sesiynau ymarfer corff wythnosol. Gall ystod o grwpiau cymunedol fynychu, gan gynnwys pobl â dementia. Mae un o'r aelodau hyn o'r Fforwm wedi creu pecyn cymorth i helpu pobl i osgoi cwmpo. Mae'n rhedeg sesiynau ar hyn i'r gymuned.

Mae dau aelod o'r Fforwm wedi hyfforddi i fod yn ymgynghorwyr i Ganolfan Wybodaeth Ysbyty Llandochau. Mae aelodau o'r Fforwm sydd ar y grŵp gweithredol wedi cael hyfforddiant i fod yn ymgynghorwyr iechyd a lles. Maen nhw'n gweithio i 'wneud i bob cyswllt gyfri' (MECC). Maen nhw'n hyrwyddo gwasanaethau byw'n iach, sgrinio a brechu.

Gallwch ymuno â'r Fforwm os ydych dros hanner cant ac yn byw, yn gweithio neu'n gwirfoddoli ym Mro Morgannwg. Os hoffech ymuno, cysylltwch â:

John Porter,
Cydgysylltydd y Strategaeth Pobl Hŷn
Cyngor Bro Morgannwg.

Ffôn: 01446 709779

E-bost: jporter@valeofglamorgan.gov.uk

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016

Cymunedau sy'n deall dementia.

Mae'r Barri yn gweithio i ddod yn gymuned sy'n deall dementia. Diben hyn yw helpu pobl â dementia a'u gofalwyr i fyw'n hapus yn y gymuned.

Mae grŵp o weithwyr a gwirfoddolwyr yn helpu pobl i ddeall dementia yn well. Maent am i bobl allu rhoi cymorth syml i rywun â dementia os oes ei angen arno/arni.

Beth yw cymorth syml? Gall olygu:

- bod yn amyneddgar, yn gymwynasgar ac yn garedig os yw rhywun sy'n ddryslyd wrth dil ac yn achosi oedi mewn ciw siopa;
- gofyn i rywun sy'n ddryslyd a oes angen cymorth arno/arni; neu
- gysylltu â'r heddlu os yw rhywun ar goll.

Rydym yn gofyn i asiantaethau, gwasanaethau a busnesau ddod yn rhai sy'n deall dementia. Rydym wedi dechrau gwaith yn y Barri. Fe hoffai'r Bont-faen, Dinas Powys a Phenarth ddod yn gymunedau sy'n deall dementia hefyd.

Gallwch ddod yn gyfaill dementia trwy gael hyfforddiant rhad-ac-am-ddim sy'n para'n ddim hwy nag awr. Gallwch ddod yn hyrwyddwr dementia hefyd a dysgu sut i hyfforddi cyfeillion newydd mewn hyfforddiant undydd rhad-ac-am-ddim.

Os byddwch yn dod yn gyfaill neu'n hyrwyddwr byddwch yn cael bathodyn i ddangos hyn. Yn fwy na hyn, byddwch yn cael y pleser o helpu eraill.

Os ydych chi'n rhedeg busnes, asiantaeth neu grŵp gweithgareddau, gallech weithio i fod yn un sy'n deall dementia. Byddech yn gwneud hyn trwy ddilyn rhestr wirio syml. Byddech yn cael tystysgrif a sticer i'w roi ar eich ffenestr i ddangos hyn.

Os hoffech helpu, cysylltwch â:

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016

John Porter
Cydgysylltydd y Strategaeth Pobl Hŷn
Cyngor Bro Morgannwg

Ffôn: 01446 709779

E-bost: jporter@valeofglamorgan.gov.uk.

Rhwydwaith Addysg Oedolion y Fro.

Mae gwasanaethau hyfforddiant ac addysg i bobl yn y Fro yn perthyn i'r rhwydwaith hwn. Bob blwyddyn, cynhelir digwyddiad sy'n cynnig cyfle i bobl roi cynnig ar lawer o weithgareddau hwyl. Mae'r rhwydwaith yn cynnal digwyddiad i ddysgwyr a hyfforddwyr, sef Gwobrau Ysbrydoli. Fel rhan o'r gwobrau, gall pobl gynnig enwau dysgwyr neu hyfforddwyr da. Wedyn mae'r dysgwyr a'r hyfforddwyr hyn yn cael tystysgrif teilyngdod. Ceir gwobrau ychwanegol am deilyngdod arbennig hefyd.

Os ydych chi'n gwybod am ddysgwr neu hyfforddwr sy'n haeddu gwobr yn eich tyb chi, rhowch wybod i ni. Cysylltwch â:

Debbie Lewis - Swyddog Datblygu Addysg Oedolion

E-bost: DJLewis@valeofglamorgan.gov.uk

Ffôn: 01446 733762.

Dyma'r rhifyn diweddaraf o'r [Prosbectws Addysg Oedolion ar gyfer 2016 - 2017](#).

Datblygu'r Celfyddydau

Rydym yn sicrhau bod ein holl waith ym maes y celfyddydau'n hygyrch ac yn hybu cydraddoldeb. Mae gennym amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau celfyddydol fel bod ystod o bobl yn gallu cymryd rhan. Dyma rai enghreifftiau o hyn.

Diwrnod Cofio'r Holocaust 2015

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016

Bob blwyddyn, rydym yn cynnal arddangosfa yn yr Oriel Gelf Ganolog i nodi Diwrnod Cofio'r Holocaust. Rydym yn ei chynnal ar 27 Ionawr fel arfer. Dyna'r diwrnod y gwnaeth milwyr ryddhau carcharorion o wersyll crynhoi Auschwitz-Birkenau ym 1945. Yn y Deyrnas Unedig, rydym wedi bod yn nodi'r diwrnod hwn ers 2001. Mae'n ein helpu i gofio'r Holocaust a hiliaddiadau eraill.

Thema Ymddiriedolaeth Diwrnod Cofio'r Holocaust ar gyfer 2016 oedd 'Don't Stand By'. Fe weithion ni gyda'r artist gwrthdaro a rhyfeloedd Nicola Tucker i gynnal gweithdai yn ein hysgolion cynradd. Gosodiad celf o fflamau gyda dyfyniadau gan y plant oedd y canlyniad. Roedd y dyfyniadau hyn yn ysbrydoledig ac yn gwneud i bobl feddwl am yr hyn a ddigwyddodd.

Fe ddangoson ni ffilm a grëwyd ar gyfer Ymddiriedolaeth Diwrnod Cofio'r Holocaust. Ar gyfer eu prosiect 'Flames for Humanity's Heroes' yr oedd hwn.

Fe gynhalion ni sioe o waith yr artist uchel ei fri, George Little. Mae ei baentiadau'n cyfleu bywyd yn Abertawe yn ystod erchyllterau cyrch awyr yr Ail Ryfel Byd.

Fe osodon ni'r posterï a greodd plant yn ysgolion y Fro ar gyfer calendr Race Equality First. Y thema ar gyfer 2016 oedd 'un ddynolryw ydym'.

Arddangosfa Cymdeithas Celfyddydau'r Merched

Bob blwyddyn, rydym yn dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod ar 8 Mawrth. I nodi'r digwyddiad hwn, rydym yn gweithio gyda Chymdeithas Celfyddydau'r Merched. Rydym yn cynnal arddangosfa agored i fenywod o bob rhan o Gymru. Rydym yn dangos gwaith celf amlgyfrwng ac yn dathlu eu cyflawniadau unigol. Mae'n dathlu amrywiaeth a chydraddoldeb ac yn hybu hawliau menywod.

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016

Dathlodd Cymdeithas Celfyddydau'r Menywod ei gŵyl flynyddol gyntaf ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod ddeng mlynedd ar hugain yn ôl ym 1987. Mae'r sefydliad bywiog hwn yn mynd i'r afael â'r arwahanrwydd a'r allgau a brofir gan fenywod yn y celfyddydau a'r gymuned ehangach.

Theatr Noson Allan

Mae gan Gyngor Celfyddydau Cymru (CCC) gynllun 'Noson Allan'. Mae'n gweithio gyda'r awdurdodau lleol ym Mro Morgannwg. Mae gwasanaeth datblygu'r celfyddydau'n hyrwyddo'r celfyddydau perfformiadol i gymunedau ledled y Fro. Mae hefyd yn helpu grwpiau o wirfoddolwyr i ddod â chyfleoedd o ansawdd uchel ym maes y celfyddydau i'w hardal leol.

Gall grwpiau cymunedol (a gaiff eu hadnabod fel Hyrwyddwyr) ddewis o ystod enfawr o berfformwyr proffesiynol gwych. Gallant gyflwyno cerddoriaeth, drama, dawn, barddoniaeth a llawer o gynrychiadau byw sy'n ymwneud â'r celfyddydau. Maen nhw'n addas ar gyfer lleoliadau cymunedol bach, neuaddau pentref a lleoliadau annhraddodiadol eraill. Mae gweithio gyda Gwasanaeth Datblygu'r Celfyddydau a'r tîm Noson Allan yn gwarantu rhag colled ar gyfer digwyddiadau. Rydym ni'n talu ffi i'r perfformiwr ac mae'r hyrwyddwr cymunedol yn ad-dalu incwm a gafwyd trwy werthu tocynnau ar y drws. Rydym yn cefnogi cynrychiadau fel bod cymunedau sy'n wynebu heriau economaidd a chymdeithasol yn gallu ymgysylltu â'r celfyddydau.

Mae'r hyrwyddwyr yn rhydd i drefnu bod ystod eang o artistiaid proffesiynol yn dod i berfformio. Rydym ni'n cefnogi costau'r perfformiwr fel bod llai o risg i hyrwyddwyr. Po fwyaf o arian y mae hyrwyddwyr yn ei wneud, po fwyaf o arian sydd ar gael ar gyfer cyfleoedd pellach.

Gwasanaethau Hamdden

Rydym yn cynnig nifer o gynlluniau trwy ein Tîm Datblygu Chwaraeon a Chwarae.

Chwarae

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016

Yn ystod gwyliau ysgol, rydym yn rhedeg cynlluniau chwarae. I'n helpu i wneud hyn, rydym yn cael cyllid gan ein Cyngor ni, a chynghorau tref a chymuned. Rydym hefyd yn cael cyllid gan un o gynlluniau'r Llywodraeth, sef Teuluoedd yn Gyntaf.

Rydym yn defnyddio arian Teuluoedd yn Gyntaf ar gyfer plant a phobl ifanc anabl. Rydym yn rhoi cyfleoedd iddynt chwarae ac yn eu cefnogi mewn nifer o ffyrdd. Rydym yn eu helpu trwy ddarparu pethau megis:

- cymorth un-i-un;
- gofal personol;
- nyrs i ddiwallu anghenion meddygol;
- cludiant;
- offer arbenigol.

Rydym hefyd yn rhedeg cynlluniau chwarae eraill y gall yr holl blant gymryd rhan ynddynt.

Yn ystod y gwyliau ysgol, cymerodd plant a phobl ifanc anabl ran yn y cynllun chwarae i blant a phobl ifanc anabl a chynllun i blant yn eu harddegau ar 1593 achlysur.

Chwaraeon

Rydym yn rhedeg nifer o raglenni er mwyn apelio at bawb. Rydym hefyd yn targedu grwpiau nad ydynt yn cymryd rhan mewn chwaraeon gymaint â'i gilydd. Dyma rywfaint o wybodaeth am y prosiectau hyn.

Cynllun Campau'r Ddraig

Cynllun i annog mwy o blant cynradd i gymryd rhan mewn chwaraeon ar ôl ysgol ac yn y gymuned yw hwn. Rydym yn gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu ymuno.

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016

Mae'r cynllun yn agored i ysgolion arbennig, gan gynnwys Ysgol Y Deri.

Mewn ysgolion prif ffrwd, rydym yn annog plant i ymuno yn y gweithgareddau beth bynnag fo lefel eu gallu. Fel rhan o'r cynllun, rydym yn trefnu digwyddiadau a gwyliau. Mewn rhai o'r digwyddiadau hyn, rydym yn ceisio cynnwys plant nad ydynt fel arfer yn cymryd rhan yn aml iawn mewn chwaraeon. Gall y grwpiau hyn fod yn ferched, yn blant anabl ac yn blant o wahanol grwpiau hil.

Cynllun '5 x 60'

Mae'r cynllun hwn ar gyfer plant mewn ysgolion uwchradd. Mae'n eu hannog i ymuno mewn chwaraeon mewn clybiau ar ôl ysgol a chlybiau cymunedol. Eto, rydym yn targedu'r rhai nad ydynt fel arfer yn cymryd rhan mewn chwaraeon, er bod croeso i bawb fynychu.

Pan ydym yn cynllunio gweithgareddau, rydym yn meddwl sut i annog mwy o fenywod a phobl ifanc anabl i gymryd rhan.

Anabledd

Yn 2015, fe enillon ni safon Efydd y rhaglen Insport. Rhaglen genedlaethol yw hon. Ei nod yw ysgogi sefydliadau i feddwl sut y gall pobl anabl gymryd rhan mewn chwaraeon. Mae'n dangos ein hymrwymiad i gynllunio chwaraeon y gall unrhyw un gymryd rhan ynddynt, gan gynnwys pobl anabl.

Dim ond cyllid ar gyfer swyddog rhan-amser i weithio yn y maes yma sydd gennym bellach. Rydym yn gweithio gydag ysgolion a chlybiau cymunedol i'w helpu i ddod yn fwy cynhwysol. Rydym yn rhoi cyngor iddynt ac yn datblygu eu sgiliau i wneud hyn. Mae hyn yn cynnwys rhedeg cyrsiau hyfforddi a rhannu gwybodaeth gyda chlybiau a grwpiau lleol.

Mae 47 o grwpiau a chlybiau sy'n cynnig chwaraeon y gall pobl anabl gymryd rhan ynddynt neu sy'n arbennig ar gyfer pobl anabl. Fe enillodd nifer o'r clybiau hyn achrediad Insport:

- Cyrhaeddodd 4 clwb safon Rhuban;

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016

- Cyrhaeddodd 7 clwb safon Efydd;
- Enillodd 1 clwb safon Arian.

Mae gennym wersi nofio i blant anabl. Rydym yn eu galw'n wersi Swimability. Legacy Leisure sy'n rhedeg y sesiynau hyn fel rhan o Gynllun Acwateg y Fro.

Pan fod galw amdano, rydym yn darparu hyfforddiant ar gynnwys pobl anabl mewn chwaraeon.

Rydym yn gweithio gydag eraill i ddatblygu pobl anabl dalentog. Rydym yn gwneud hyn trwy'r Academi Nofio i Bobl Anabl ac Academi Ffederasiwn Chwaraeon Anabled Cymru.

Menywod a merched

Fel rhan o'n cynllun chwaraeon, mae gennym gynllun o'r enw 'Merched yn Ymarfer Corff' i annog mwy o ferched i gymryd rhan mewn chwaraeon. Mae hyn yn flaenoriaeth i un o'n cyllidwyr, Chwaraeon Cymru, ac i'n cynllun chwaraeon ni ein hunain. Buom yn gweithio ar brosiectau megis codi hwyl, tenis, ffitrwydd, pêl-droed merched, rygbi aawns. Fe wnaethom hefyd redeg yr ymgyrch Ymlaen Ferched. Diben hyn oedd annog merched i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Cymerodd 13 o glybiau ran yn yr ymgyrch. O ganlyniad, fe gymerodd 91 o fenywod a merched newydd ran mewn 43 sesiwn mewn clybiau lleol yn ystod mis Mawrth.

Roedd Arolwg Chwaraeon mewn Ysgolion 2015 yn dangos y canlynol:

- Roedd 48% o'r merched yn y Fro yn cymryd rhan mewn chwaraeon o leiaf deirgwaith yr wythnos;
- Roedd 69% o'r merched o'i gymharu â 71% o'r bechgyn mewn ysgolion cynradd yn cymryd rhan mewn unrhyw chwaraeon clwb o leiaf unwaith yr wythnos;
- Roedd 62% o'r merched o'i gymharu â 72% o'r bechgyn mewn ysgolion uwchradd yn cymryd rhan mewn unrhyw chwaraeon clwb o leiaf unwaith yr wythnos.

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016

Mae'r gwahaniaeth yn y ganran o'r merched a bechgyn o oedran cynradd sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon unwaith yr wythnos yn gymharol fach. Mae'r gwahaniaeth yn y ganran o'r merched a'r bechgyn o oedran uwchradd sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon unwaith yr wythnos wedi tyfu. Fodd bynnag, o'i gymharu â ffigyrau cenedlaethol, mae nifer y merched o oedran uwchradd a gymerodd ran mewn chwaraeon yn dda. Byddwn yn parhau i weithio ar brosiectau ar gyfer merched yn y grŵp oedran yma i gau'r bwlch rhwng y rhywiau.

Y gymuned Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig

Gall unrhyw un gymryd rhan yn ein gweithgareddau chwaraeon. Fodd bynnag, rydym wedi helpu rhai grwpiau i wneud ceisiadau am arian o'r Gist Gymunedol i redeg prosiectau ar gyfer grwpiau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Er enghraifft, fe wnaeth y Tîm Datblygu Chwaraeon gynorthwyo Grŵp Menywod yr Enfys i gael arian i gynnal sesiynau dawns Bollywood ar gyfer menywod o leiafrifoedd ethnig. Roedd gennym sesiynau nofio wythnosol i fenywod yn unig yng Nghanolfan Hamdden y Barri hefyd.

Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb

Rydym yn rheoli cronfa'r Gist Gymunedol. Rydym yn cael y gronfa hon gan Chwaraeon Cymru. Gall clybiau ymgeisio am arian i gynyddu cyfleoedd chwaraeon yn y gymuned. Gall y clybiau ddefnyddio peth o'r arian hwn i ymdrin ag anghydraddoldeb. Mae hyn yn helpu i wella cyfleoedd i wahanol grwpiau gan gynnwys:

- Pobl Dduon, Asiaidd neu bobl o leiafrifoedd ethnig;
- menywod a merched;
- pobl anabl; a hefyd
- pobl o ardaloedd amddifadus.

Roedd o leiaf 9 o brosiectau'n targedu anghydraddoldeb. Roedd hyn yn cynnwys prosiectau a oedd yn rhoi mwy o gyfleoedd i bobl anabl, menywod, a menywod o grŵp ethnig lleiafrifol.

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016

Hyrwyddo chwaraeon

Rydym yn defnyddio lluniau o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol wrth hyrwyddo ein chwaraeon. Rydym yn gobeithio bod hyn yn annog ystod amrywiol o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon.

Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff

Rydym yn rhedeg cynllun i atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff. Y drefn yw bod meddygon yn atgyfeirio pobl atom i'w helpu i wella ar ôl afiechyd neu anaf. Mae'r cynllun yn agored i bawb ac yn cael ei ddefnyddio'n sylweddol gan grwpiau gwarchoddedig.

Parciau

Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith bod gennym saith parc 'baner werdd'. Mae'n rhaid i ni ddangos ymrwymiad i gydraddoldeb fel rhan o'r asesiad i gael baner werdd ar gyfer parc. Rydym wedi gwneud pethau gwahanol mewn parciau gwahanol i gyflawni hyn. Mae'r pethau yr ydym wedi'u gwneud yn cynnwys:

- gwella mynediad ar gyfer pobl anabl;
- darparu offer chwarae arbenigol;
- darparu cyfleoedd profiad gwaith ar gyfer grwpiau gwarchoddedig, megis y rhai ag anawsterau dysgu.

Gwerthuso Swyddi

Mae gennym gynllun gwerthuso swyddi. Mae'r cynllun hwn ar gyfer staff y telir cyflogau iddynt dan y cydgytundeb Statws Sengl. Mae'n gwneud yn siŵr bod ffordd systematig o bennu'r cyflog ar gyfer swydd. Mae hyn yn arwain at gyflog cyfartal am waith ac iddo werth cyfartal. Mae canlyniadau gwerthuso swyddi'n gysylltiedig â'n system cyflog a graddio. Fe sefydlon ni system cyflog a graddio ym mis Mawrth 2012. Mae wedi ein helpu i roi cyflog teg i bobl a hynny mewn ffordd gyson.

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016

Ceir ffactorau eraill sy'n effeithio ar gyflogau pobl megis y mathau o swyddi y maent yn dewis eu gwneud. Mae dynion a menywod yn aml yn dewis gwneud swyddi y mae dynion a menywod wedi'u gwneud yn draddodiadol. Gwahanu galwedigaethol yr ydym yn galw hyn. Mae'n aml yn chwarae rhan yn y ffaith bod bwloch rhwng cyflogau dynion a menywod – bwloch cyflog rhwng y rhywiau.

Fel rhan Gynllun y Gweithlu, rydym yn parhau i chwilio am ffyrdd o leihau'r bwloch cyflog rhwng y rhywiau. Ers 2013, rydym yn asesu swyddi newydd a newidiol trwy ein system gwerthuso swyddi. Fel rhan o hyn, rydym yn meddwl am yr wybodaeth, y sgiliau a'r profiad y mae ar bobl eu hangen i wneud y swydd. Ceir llawer o newidiadau fel hyn wrth i ni ad-drefnu ein hadrannau. Mae defnyddio'r dull hwn yn cadw'r strwythur cyflog a graddio'n deg a chyson.

Cynllun y Gweithlu (2016 – 2020)

Mae cynllun newydd ar gyfer y gweithlu wedi cael ei sefydlu yn 2016 (Cynllun y Gweithlu 2013-2017 yn flaenorol). Mae'r cynllun hwn yn gwneud yn siŵr bod gennym:

- y bobl gywir;
- â'r sgiliau cywir;
- yn y lle cywir;
- ar yr adeg gywir.

Mae hyn yn ein helpu i barhau i ddarparu ein gwasanaethau ar adeg pan fo heriau ariannol mawr. Rydym yn bwriadu sicrhau bod cyfansoddiad ein gweithlu'n debyg i gyfansoddiad y gymuned leol o ran grwpiau gwarchoddedig.

Rydym wedi sefydlu ffordd o gofnodi nodweddion gwarchoddedig ein staff. Mae hyn yn golygu ein bod yn gallu cymharu ein hystadegau ni ag ystadegau lleol a chenedlaetholi i weld pa gynnydd yr ydym yn ei wneud. Wedyn gallwn gynllunio sut i wneud gwelliannau.

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016

Fel rhan o gynllun y gweithlu, mae strategaeth wedi cael ei chymeradwyo i geisio cynyddu nifer y cyflogeion 16 – 24 oed. Bydd y ffocws ar ddatblygu cynllun prentisiaeth mewn partneriaeth gyda Choleg Caerdydd a'r Fro.

Gwybodaeth benodedig ym maes cyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth am hyfforddiant a chyflogau

Rydym wedi bod yn casglu data am gyflogaeth am nifer o flynyddoedd. Rydym wedi casglu gwybodaeth am y nodweddion gwarchodedig canlynol:

- rhywedd;
- hil;
- anabledd; ac
- oedran.

Rydym wedi parhau i ddatblygu systemau newydd. Bydd hyn yn ein galluogi i adrodd ar fwy o nodweddion gwarchodedig yn y dyfodol. Byddwn yn gallu casglu a chofnodi gwybodaeth ynghylch:

- cyfeiriadedd rhywiol;
- ailbennu rhywedd;
- hunaniaeth ryweddol;
- hunaniaeth genedlaethol;
- crefydd neu gred; a
- statws priodasol.

Roeddem yn dymuno canolbwyntio ar rai camau gweithredu allweddol. I'n helpu, fe ddefnyddion ni ganllawiau gan Lywodraeth Cymru. Enw'r canllawiau yw 'Casglu Data am Gydraddoldebau: Safonau sydd wedi'u Cysoni ac Arferion Gorau'.

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016

Fe newidion ni'r ffurflen yr ydym yn ei defnyddio i gasglu gwybodaeth am bobl pan fyddant yn ymgeisio am swyddi. Bellach rydym yn gofyn am yr holl nodweddion gwarchoddedig ar y ffurflen. Gallwch weld y ffurflen yn [Atodiad 3](#).

Fe ddatblygon ni arolwg staff. Fe ddefnyddion ni hwn i ofyn i staff am eu nodweddion gwarchoddedig. Fe wnaethom wella'r ffordd yr ydym yn cofnodi'r wybodaeth hon. Mae gwneud hyn yn helpu i wella'r hyn yr ydym yn ei wybod am grwpiau gwarchoddedig yn ein gweithlu.

Rydym wedi edrych ar yr wybodaeth yr ydym wedi'i chasglu. Gallwch weld yr hyn yr ydym wedi'i ganfod yn [Atodiad 5](#) o'r adroddiad hwn. Ceir cynllun gweithredu hefyd ([Atodiad 6](#)). Mae'n dangos yr hyn yr ydym wedi'i wneud ers y flwyddyn flaenorol a'r hyn y byddwn yn ei wneud i ymdrin â phryderon yn y dyfodol.

Byddwn yn parhau â'r gwaith hwn. Rydym yn dymuno gallu adrodd ar yr holl nodweddion gwarchoddedig. Ym mis Chwefror 2012, fe sefydlon ni grŵp i wneud y gwelliannau hyn. I wneud hyn, fe wnaethom y canlynol:

- cytuno ar gynllun;
- edrych ar ganllawiau gan Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol;
- mynychu gweithdai a gafodd eu rhedeg gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;
- trafod gwelliannau a sut i adrodd ar y rhain.

Nid oes gennym yr holl wybodaeth y mae angen i ni ei chasglu i gyflawni'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol. Y rhesymau dros hyn yw:

- mae angen diweddarau systemau adrodd ymhellach;

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016

- mae angen casglu data ychwanegol a chyfoes am nodweddion gwarchoddedig;
- roedd canllawiau cyfyngedig yn golygu bod yn rhaid i ni gael eglurhad o'r hyn yr oedd yn rhaid i ni adrodd arno.

Yn 2015 / 16 rydym wedi gwella ein data am y Gymraeg. Fe gynhalion ni arolwg o'n holl staff i gael gwybodaeth gyfoes am sgiliau iaith Gymraeg. Fe wnaethom hyn er mwyn cyrraedd Safonau'r Gymraeg a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2016.

Hyd yn oed pan fyddwn yn gwneud y gwelliannau hyn, efallai na fyddwn yn cael yr wybodaeth y mae'i hangen arnom. Rydym yn meddwl y bydd rhai pobl yn dewis peidio â dweud wrthym am rai o'u nodweddion gwarchoddedig. Rydym yn annog pobl i wneud hynny trwy egluro:

- pam ein bod yn gofyn am yr wybodaeth hon; a
- sut y gallwn ei defnyddio i ddiwallu eu hanghenion yn well.

Daw'r wybodaeth ar gyfer yr adroddiad hwn o systemau yn yr Adran Adnoddau Dynol. Mae hyn yn golygu bod yr wybodaeth mor gywir a chyflawn â phosibl. Gwyddom y bydd angen i ni barhau i weithio ar yr wybodaeth hon ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol. Bydd hyn yn ein helpu i ateb gofynion y ddyletswydd gyffredinol.

Sut i gysylltu â ni

Os hoffech roi adborth i ni ar yr adroddiad hwn, dyma ein manylion cyswllt:

Nicola Hinton neu Linda Brown
Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol
Perfformiad a Datblygiad
Adnoddau
Y Swyddfeydd Dinesig
Heol Holton

**Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg
1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016**

Y Barri

CF63 4RU

E-bost: nhinton@valeofglamorgan.gov.uk neu

ljbrown@valeofglamorgan.gov.uk

Rhif ffôn: 01446 709362.